

CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

C289 CYHOEDDIAD –

Dechreuodd yr Arweinydd drwy roi gwybod am rai materion cadw tŷ a dywedodd fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ei recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

C290 COFNODION –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2025 fel cofnod cywir.

C291 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd Sivagnam fuddiant personol a rhagfarnus yn Eitem 15 ar yr Agenda ynghylch "Canolfan Gymunedol Belle Vue – Parhad Dros Dro o Drefniadau Rheoli" fel Cadeirydd y Pafiliwn a dywedodd y byddai'n gadael cyfarfod y Cabinet ar gyfer yr eitem.

C292 ADRODDIAD MONITRO CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2023-2024 (CYF) –

Cyflwynwyd y geirda gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2025.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam y bu trafodaeth dda yng nghyfarfod y Pwyllgor a oedd wedi anfon sylwadau at y Cabinet i'w hystyried, adran benodol yn ymdrin ag lechyd Meddwl ac y gellid cynnwys Gwybodaeth cydraddoldeb mewn perthynas â recriwtio a defnyddio staff asiantaeth fel rhan o'r broses fonitro.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 3ydd Mawrth, 2025 ac y byddent yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar yr Adroddiad Monitro ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

C293 CYFLEOEDD HAMDDEN AR SAFLEOEDD GWASANAETHAU CEFN GWLAD (CYF) –

Cyflwynwyd y geirda gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2025.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y bu trafodaeth fanwl ar y mater yn y cyfarfod, gan gynnwys pryderon am yr effaith ar fywyd gwyllt, sŵn, diogelwch a diogeledd. Nid oedd unrhyw argymhellion penodol i'r Cabinet eu hystyried ond gwnaeth y Pwyllgor sylwadau i'w hystyried cyn unrhyw gytundeb terfynol gyda'r gweithredwyr hamdden perthnasol.

PENDERFYNWYD –

(1) Diolch i'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant am ystyried y mater a'r cyfeiriad dilynol at y Cabinet.

(2) Bod sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael eu nodi ac y byddent yn cael eu hystyried cyn unrhyw gytundeb terfynol gyda'r gweithredwr hamdden perthnasol ac ar ôl cwblhau'r holl ddiwydrwydd dyladwy ynghylch y peilot.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

C294 PWYLLGOR YMGYNGHOROL BAE CAERDYDD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 22 Ionawr, 2025.

Dywedodd y Cyngorydd Wilson, sy'n cadeirio'r Pwyllgor, fod trafodaethau diddorol wedi bod yn y cyfarfod, gan gynnwys:

- swm y malurion a gliriwyd ym mis Ionawr oherwydd tywydd garw;
- gweithgarwch gydag ysgolion ynglŷn â chasglu sbwriel a hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol;
- byddai Cyfarfod Blynnyddol rhyngwladol Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd (NASCO) yn cael ei gynnal ym Mae Caerdydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn;
- cynnal a chadw morglawdd a lociau;
- diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn trafod lefelau ocsigen dŵr, cau llwybr pysgod y Morglawdd ar gyfer gwaith cynnal a chadw'r gaeaf, mudo llyswennod, cofnodi Salmonidau ac ymgynghoriad Pont Troed Channel View.

Dywedodd y Cyngorydd Wilson wrth y Cabinet y byddai'n ben-blwydd Awdurdod Harbwr Caerdydd yn 25 oed ar 1 Ebrill 2025. Roedd sawl digwyddiad wedi'i gynllunio i nodi'r achlysur a byddai mwy o fanylion am y rheiny yn cael eu rhoi pan fyddant ar gael.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 22 Ionawr, 2025.

Rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

C295 GRANTIAU I SEFYDLIADAU ELUSENNOL (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu cyllid grant i ystod o sefydliadau elusennol fel y disgrifir yn yr adroddiad.

Dywedodd yr Arweinydd fod gweithio gyda phartneriaid mor bwysig o ran darparu gwasanaethau hanfodol i'r rhai yr oedd eu hangen arnynt ym Mro Morgannwg, a oedd yn cynnwys cymorth i Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a Chyngor ar Bopeth.

Dywedodd y Cyngorydd Wilson fod y ddau sefydliad yn cynnig gwasanaethau cymunedol pwysig i drigolion Bro Morgannwg a oedd hefyd yn cynnwys cyrsiau rhad ac am ddim ar gyfer sefydliadau sydd angen cymorth gyda chyllid grant. Roedd Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg hefyd yn aelod gwerthfawr o Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ac roedd y ddau wedi bod yn bartneriaid buddiol i'r Cyngor ers amser maith.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Dyfarnu grant o £101,144 i Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) i Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) ar gyfer 2025/26 yn unol â setliad y Cyngor gan Lywodraeth Cymru ac i newidiadau yn y cyllid ar gyfer 2026/27 a 2027/28 fod yn unol â setliadau'r blynyddoedd hynny (ac eithrio cyllid ychwanegol o ganlyniad i drosglwyddo unrhyw gyfrifoldeb tymor canolig newydd i'r prosiect). Pe bai'r Cyngor yn derbyn setliad negyddol byddai'r cyllid yn aros fel y flwyddyn flaenorol ac ni fyddai'r cynnydd yn fwy na 5% mewn unrhyw un flwyddyn.

(2) Dyfarnu grant o £157,335 i Gyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro yn 2025/26, 2026/27 a 2027/28 gyda thaliad ychwanegol o £30,000 ar gyfer 2025/6 o'r gronfa costau byw wrth gefn.

(3) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ddatblygu a chytuno ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a Chyngor ar Bopeth.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Dyfarnu arian i gefnogi Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg.
- (2) Dyfarnu arian i gefnogi Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro.
- (3) Bod â chytundebau lefel gwasanaeth priodol yn eu lle ar gyfer darparu gwasanaethau a chefnogaeth.

C296 TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2026/27 (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i hysbysu'r Cabinet am ganlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ar drefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer Ysgolion Cymunedol yn unol â Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r adroddiad a'r atodiadau eraill a gynhwyswyd fel rhan o'r adroddiad.
- (2) Cymeradwyo'r Polisi Derbyn i Ysgolion yn Atodiad A.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried gan y Cabinet wrth ddod i benderfyniad ar y trefniadau derbyn arfaethedig erbyn 15 Ebrill, 2025.
- (2) Roedd yn ofynnol i'r Cyngor adolygu ac ymgynghori ar dderbyniadau i ysgolion yn flynyddol ac adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad ac unrhyw gynigion a ddeilliodd ohono.

C297 TREFNIADAU GWELLA YSGOLION YN Y DYFODOL (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i roi diweddariad pellach i'r Cabinet mewn perthynas â chyfeiriad gwasanaethau gwella ysgolion yn y dyfodol ar gyfer ysgolion Bro Morgannwg (yn dilyn yr adroddiad i'r Cabinet ar 28 Tachwedd, 2024) a gofynnodd

am gymeradwyaeth y Cabinet i'r model gweithredu arfaethedig fel y'i nodwyd yn yr adroddiad gyda goblygiadau ariannol penodol.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) Y byddai gwasanaethau gwella ysgolion yn cael eu darparu ar sail leol.
- (2) Y byddai'r gwasanaethau dysgu proffesiynol a chymorth cwricwlwm yn cael eu darparu ar sail ranbarthol.
- (3) Y dylai'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth dysgu proffesiynol rhanbarthol a chymorth cwricwlwm arfaethedig drosglwyddo i drefniant cydweithio rhwng y pum Awdurdod Lleol cyfansoddol ar draws Consortiwm Canolbarth y De (CCD).
- (4) Nodi'r goblygiadau ariannol.
- (5) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant i weithredu unrhyw fodelau gwasanaeth gwella ysgolion diwygiedig.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-5) Sicrhau bod y Cabinet yn cael gwybod am y gwaith sydd ar y gweill mewn ymateb i'r adolygiad Haen Ganol cenedlaethol a sicrhau y gallai Cyngor Bro Morgannwg ymateb i ganlyniadau'r adolygiad a chwrdd â'r terfynau amser gofynnol ar gyfer trosglwyddo i drefniadau newydd fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

C298 CAFFAEL CONTRACT PEIRIANYDDOL YN ÔL Y GALW AR GYFER LLAFUR A GWAITH UNIONGYRCHOL 2025-2027 (WCA) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i gael cymeradwyaeth i gaffael a chytuno i ddyfarnu'r Contract yn ôl y Galw ar gyfer Llafur Uniongyrchol a Gwaith 2025-27.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD caffael Contract Llafur Uniongyrchol a Pheiriannau yn ôl y Galw 2025 - 2027 drwy borth Gwerthwchi Gymru yn cael ei gymeradwyo, ar gyfer darparu llafur uniongyrchol ar gyfer cynlluniau Priffyrdd yn y dyfodol fel y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Adeiladau a Chymdogaeth i ddyfarnu'r contract(au) i'r tendr mwyaf economaidd fanteisiol ac i ymestyn y contract(au) yn unol â thelerau'r contract.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ddrafftio a gweithredu'r contract(au) ar gyfer dyfarnu contract Llafur Uniongyrchol a Pheiriannau yn ôl y Galw 2025 – 2027.

(4) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Adeiladau a Chymdogaeth, i ymestyn Contract Llafur Uniongyrchol a Pheiriannau yn ôl y Galw 2022-24 am gyfnod ychwanegol o hyd at 6 mis o 1 Ebrill 2025 ar y cyfraddau tendro, er mwyn hwyluso'r broses dendro, y cyfnod segur, gwerthuso a dyfarnu Contract(au) Llafur Uniongyrchol a Pheiriannau yn ôl y Galw 2025-27, i sicrhau na cholir unrhyw barhad busnes na chyflenwi.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog Contractau'r Cyngor.

(2) Ymdrin yn effeithlon ac yn brydlon â dyfarnu a rheoli'r contract yn dilyn y broses gaffael.

(3) Sicrhau bod y ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol yn ei lle ar gyfer y contract.

(4) Sicrhau parhad busnes a chyflawni prosiectau adeiladu parhaus wedi'u hariannu gan gyfalaf nes i'r Contract newydd gael ei ddyfarnu a'i fod ar waith.

C299 DIWEDDARIAD 2025 I GYNLLUN CYFLAWNI'R GRANT CYNNAL TAI 2022-2025 (DSCCT) (CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i hysbysu'r Cabinet am y blaenoriaethau Grant Cymorth Tai wedi'u diweddarau a gofynnodd am gymeradwyaeth ar gyfer cynllun gwariant Grant Cymorth Tai 2025-2026.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Bod Diweddariad 2025 i Gynllun Cyflawni'r Grant Cynnal Tai 2022-2025 yn cael ei gymeradwyo.

(2) Cymeradwyo Cynllun Gwariant y Grant Cynnal Tai 2025-2026 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Canllawiau Grant Cynnal Tai (GCT) (Cymru) Ebrill 2021.
- (2) Sicrhau bod Cynllun Gwariant GCT 2025-2026 yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol ag amodau'r Grant Cynnal Tai (GCT).

C300 RHAGLEN DATBLYGU TAI – RHOI TŶ TREGATWG I'R CYFRIF REFENIW TAI A'I ADDASU'N LLETY DROS DRO (DSCCT) (CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i hysbysu'r Cabinet am gynnig i drosglwyddo'r Tŷ Tregatwg gwag i'r Cyfrif Refeniw Tai o'r Gronfa Gyffredinol (Tai) a'i drawsnewid yn 13 uned o lety dros dro y mae mawr ei angen.

Dywedodd y Cyngorydd Perkes fod Cyngor Bro Morgannwg bob amser yn chwilio am lety dros dro ychwanegol er mwyn cefnogi trigolion mewn angen ym Mro Morgannwg. Dywedodd yr Arweinydd, yn ogystal â darparu llety dros dro, fod y Cyngor hefyd yn darparu cymorth i bobl fynd ymlaen i fod yn denantiaid cynaliadwy dros y tymor hwy.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD penderfyniad y Bwrdd Mewnwelediad Strategol sy'n cadarnhau bod Tŷ Tregatwg dros ben i'r gofynion o ystyried ei ddefnydd blaenorol yn cael ei gymeradwyo.
- (2) BOD cymeradwyaeth yn cael ei roi i adfeddu'r Tŷ Tregatwg gwag o'r Gronfa Gyffredinol (Tai) i'r Cyfrif Refeniw Tai am y gwerth y cytunwyd arno sef £275,000 at ddibenion ei newid yn llety dros dro.
- (3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid a'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151, i gytuno a rheoli'r holl faterion sy'n ymwneud â phenodi cwmni rheoli adeiladu a'r isgcontractwyr angenrheidiol, i ymgymryd â'r gwaith o newid Tŷ Tregatwg.
- (4) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gytuno, paratoi, gweithredu a chwblhau yn ôl yr angen yr holl gytundebau a dogfennau contract, sy'n ymwneud â phenodi cwmni rheoli adeiladu ac isgcontractwyr angenrheidiol i gwblhau'r gwaith o newid Tŷ Tregatwg.

(5) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gytuno, paratoi a gweithredu yn ôl yr angen yr holl gytundebau statudol sy'n gysylltiedig â newid Tŷ Tregatwg.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Caniatáu i Dŷ Tregatwg gael ei adfeddu o'r Gronfa Gyffredinol (Tai) i'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

(2) Cydymffurfio â gofynion Adran 122 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a chaniatáu adfeddu ased y Gronfa Gyffredinol (Tai) yn ffurfiol at ddibenion tai.

(3) Mynd i'r afael â'r holl faterion sy'n ymwneud â phenodi adnoddau i ymgymryd â'r gwaith o newid Tŷ Tregatwg.

(4) Caniatáu penodi cwmni rheoli adeiladu ac isgontractwyr angenrheidiol i ymgymryd â'r gwaith o newid Tŷ Tregatwg.

(5) Cael y cytundebau statudol sydd eu hangen i newid Tŷ Tregatwg.

C301 ADNEWYDDU CONTRACTAU GOFAL PLANT A GOMISIYNIR GAN DECHRAU'N DEG (GCI) (CRAFFU – BYW YN IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i geisio awdurdod i adnewyddu'r contractau gofal plant ar gyfer darparwyr gofal plant a gomisiynir gan Dechrau'n Deg a rhwydwaith gwarchodwyr plant. Dywedodd y Cyngorydd Williams fod y cynnig yn parhau â'r ddarpariaeth oedd eisoes yn ei lle a gofynnodd am awdurdod i ymestyn y contract a'r cynnig gofal plant.

Dywedodd y Cyngorydd Birch ei bod mor bwysig i blant gael darpariaeth gynnar y tu allan i'r cartref gan fod astudiaethau hydredol wedi dangos bod plant â darpariaeth o'r fath yn gallu cael mynediad at addysg yn well ac yn galluogi nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gynt.

Dywedodd y Cyngorydd Sivagnamam ei bod yn hanfodol bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a bod darpariaeth o'r fath yn creu cymunedau tecach ac yn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd, yn cael ei awdurdodi i adnewyddu'r contractau gofal plant ar gyfer Canolfan Blant Gibbonsdown, Dechrau Dysgu a gwarchodwyr plant rhwydwaith Dechrau'n Deg.

(2) BOD y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd, yn cael ei awdurdodi i ddyfarnu'r contract(au) ar gyfer y gwasanaeth am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am hyd at ddwy flynedd arall, ar ôl cwblhau'r broses dendro.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, i baratoi, cwblhau a gweithredu contract gyda'r darparwyr gofal plant a gwarchod plant.

(4) BOD defnydd o'r weithdrefn frys a nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ganiatáu er mwyn i contractau ddechrau ym mis Ebrill 2025.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Galluogi'r Gyfarwyddiaeth i barhau i ddarparu gofal plant o ansawdd uchel ym Mro Morgannwg, mewn ffordd gost-effeithiol a oedd yn bodloni gofynion Canllawiau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru a safonau gofynnol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

(2) Sicrhau bod y gwasanaeth ar waith am y ddwy flynedd nesaf gyda'r potensial i'w ymestyn am ddwy flynedd arall os oes angen.

(3) Sicrhau bod yr awdurdod a'r ddogfennaeth briodol ar waith i adnewyddu'r contractau.

(4) Sicrhau y gallai'r contractau ddechrau o ddechrau mis Ebrill 2025.

C302 CYNLLUN STRATEGOL CYDRADDOLDEB 2025 – 2029 (YGCGR) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i ddiweddarau ar gyfer y cyfnod 2025 – 29.

Dywedodd y Cyngorydd Sivagnamam fod gan y camau gweithredu ffocws mewnol ac allanol yn ogystal â gweithio i leihau'r anghydraddoldebau a brofir gan drigolion Bro Morgannwg a chefnogi cyflawni amcanion corfforaethol Bro 2030 y Cyngor ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

Fel rhan o'r broses ymgynghori cydnabuwyd nad oedd rhai o'r dulliau traddodiadol o gasglu barn y rhai yr effeithiwyd arnynt gan anghydraddoldeb yn gweithio mwyach a galwodd yr adroddiad am adolygiad o'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb yn ogystal â'r mecanwaith ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig edrych ar Fro Morgannwg, ei thrigolion a'u hanghenion a deall yr anghenion hynny er mwyn darparu'r gwasanaethau angenrheidiol.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig 2025 – 2029 (sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad) a nodi'r asesiad effaith cydraddoldeb (Atodiad B i'r adroddiad).
- (2) Cwblhau adolygiad o'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb a'i adrodd i'r Cabinet gydag argymhellion ar gyfer cynyddu effeithiolrwydd mecanweithiau'r Cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r rhai â nodweddion gwarchodedig a'r grwpiau gwirfoddol ac eiriolaeth sy'n eu cynrychioli.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Sicrhau bod y Cyngor wedi adolygu ac wedi sefydlu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2025 – 2029 gydag amcanion cydraddoldeb a oedd yn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y Cyngor i wella cydraddoldeb a thegwch ym Mro Morgannwg.
- (2) Sicrhau bod mecanweithiau ymgysylltu'r Cyngor yn parhau i ddatblygu yn unol ag uchelgeisiau'r Fro 2023 a'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus.

C303 CANOLFAN GYMUNEDOL BELLE VUE – PARHAD TREFNIADAU RHEOLI DROS DRO (HCL) (CRAFFU – BYW YN IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –

Ar ôl datgan diddordeb yn yr adroddiad, gadawodd y Cynghorydd Sivagnam y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i ymestyn y trefniadau rheoli interim yng Nghanolfan Gymunedol Belle Vue cyn i'r Cabinet ystyried opsiynau rheoli tymor hwy, gan gynnwys cais cam 2 Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Dywedodd yr Arweinydd fod gan y Ganolfan gyfleusterau ardderchog i'r anabl a'i bod yn bwysig gweithio gyda'r gymuned a phartion â diddordeb dros y flwyddyn nesaf i ddod o hyd i'r partner cywir ar gyfer y ganolfan gymunedol.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y trefniadau rheoli presennol ar gyfer y Ganolfan Gymunedol yn cael eu hymestyn nes bod y Cabinet wedi ystyried opsiynau rheoli tymor hwy, gan gynnwys cynnig Trosglwyddo Asedau Cymunedol Cam 2 a dderbyniwyd.

(2) BOD y Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai yn cael ei awdurdodi i ymestyn y Cytundeb Rheoli a Thrwydded presennol gyda Big Fresh Catering Company (BFCC) am 12 mis arall, yn amodol ar ganiatâd y Loteri Genedlaethol, gyda chymalau terfynu ar fisoedd tri, chwech a naw, er mwyn caniatáu amser i benderfyniad gael ei wneud o ran rheoli'r Ganolfan Gymunedol yn y dyfodol ac, os oes angen, i ganiatáu cyfnod trosglwyddo.

(3) BOD y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i gydgyssylltu â'r Loteri Genedlaethol i gael y caniatâd angenrheidiol ar gyfer y cytundebau ymestyn.

(4) BOD y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i ddrafftio, cwblhau a gweithredu'r holl waith papur angenrheidiol i gwblhau'r cytundebau ymestyn gyda BFCC.

(5) BOD y weithdrefn frys a nodir yn adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei defnyddio mewn perthynas â Phenderfyniadau (1) a (2) uchod.

(6) BOD adroddiad pellach yn cael ei roi i'r Cabinet o fewn y 12 mis nesaf yn manylu ar opsiynau ar gyfer rheoli'r Ganolfan yn yr hirdymor.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Caniatáu i'r Ganolfan Gymunedol barhau i weithredu tra bod y Trosglwyddo Asedau Cymunedol Cam 2 yn cael ei ystyried.

(2) Caniatáu digon o amser i gytuno ar reolaeth y Ganolfan Gymunedol yn y dyfodol.

(3) Caniatáu i ganiatâd y Loteri Genedlaethol gael ei roi.

(4) Caniatáu i'r holl waith papur cyfreithiol angenrheidiol gael ei gwblhau.

(5) Sicrhau y gellid cynnal parhad gwasanaeth nes bod dyfodol y Ganolfan Gymunedol wedi'i benderfynu.

(6) Cytuno ar drefniadau rheoli hirdymor y Ganolfan.